| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **27 TACHWEDD 2023** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMELLIAD | **Derbyn a nodi y wybodaeth** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone (Link yn flaenorol) fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLl)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 20 Medi 2023. Mae’r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o’r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o’r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi’i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30 Mehefin 2023.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn wyth o’r unarddeg is-gronfa ac ar 30 Mehefin 2023 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £373.0m**
- **Twf Byd- Eang- £364.8m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £56.2m**
- **Goddefol Byd-Eang - £522.8m**
- **Credyd Aml Ased - £205.1m**
- **Strategaeth Bond Absoliwt - £388.4m**

- **Credyd Byd-Eang - £133.9m**
- **Ecwiti Cynaliadwy- £280.2m**

## 4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEHEFIN 2023

Mae’r adroddiadau perfformiad i’w gweld yn atodiad 4.

Bu data economaidd cadarnhaol a datrysiad i drafodaethau nenfwd dyledion yr UD yn gymorth i wthio ecwiti yn uwch ym mis Mehefin ar ôl perfformiad distawach ym misoedd Ebrill a Mai. Bu dargyfeiriad ar draws marchnadoedd, gyda'r UD yn ennill y blaen ar y mynegai byd-eang a chymheiriaid datblygedig. Bu cynnydd araf ar reoli chwyddiant a'r disgwyliadau i gyfraddau godi yn y dyfodol yn pwyso ar farchnadoedd yn y DU ac Ewrop. Fe wnaeth doler yr UD gryfhau yn erbyn yr ien Japaneaidd a'r rhan fwyaf o arian nwyddau-sensitif ond gwaniodd yn erbyn y bunt a'r ewro. Aeth prisiau olew i lawr wrth i bryderon am ragolygon y galw byd-eang barhau, yr adferiad araf yn dilyn Covid yn Tsieina yn benodol. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed), Banc Canolog Ewrop (ECB) a Banc Lloegr (BoE) i gyd godi cyfraddau dros y chwarter, drwy symiau amrywiol.

Mae perfformiad is-gronfeydd y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi ynddynt yn cael eu monitro gan swyddogion, ac fel rhan o adolygiad buddsoddi chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi eu nodi.

## 5. DATBLYGIADAU’R DYFODOL

- Mae ymuno gyda'r is-gronfa isadeiledd penagored a mandad ecwiti preifat Schroders yn parhau.
- Mae gwaith yn parhau i ddatblygu datrysiadau eiddo ar gyfer y bartneriaeth.

## 6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi y wybodaeth.